# Papur y Bwrdd

17 Mawrth 2016

| | |
|---|---|
| **Teitl y papur:** | **Cynllun Busnes a Chyllideb 2016-17** |
| **Cyfeirnod y papur:** | **Papur NRW B 17.16** |
| **Paratowyd y papur gan:** | **Clive Thomas / Kevin Ingram** |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Rob Bell / Sue Ginley |

| | |
|---|---|
| **Diben y papur:** | **Penderfyniad:** Cymeradwyo Cyllideb a Chynllun Busnes 2016-17 |
| **Argymhelliad:** | Cymeradwyo Cyllideb a Chynllun Busnes 2016-17 er mwyn eu cyhoeddi erbyn 31 Mawrth. |

| | |
|---|---|
| **Effaith:** Dylid nodi na fydd pob pennawd efallai'n berthnasol i'r pwnc | **Effaith ar yr amgylchedd:**<br>**Effaith ar yr economi:**<br>**Effaith ar y gymuned:**<br>**Effaith ar wybodaeth:**<br><br>Mae'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes yn egluro'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud a'r adnoddau sydd gennym i gyflawni'r gwaith hwnnw ar gyfer 2016-17. Mae angen i ni sicrhau bod gennym Gyllideb a Chynllun Busnes sydd wedi'u cymeradwyo ar gyfer 2016-17, ac sydd wedi'u hystyried gan y Gweinidog, a fydd yn barod i'w cyhoeddi ar ein gwefan erbyn 31 Mawrth 2016. |

## Mater

Rydym yn gofyn i'r Bwrdd gymeradwyo ein Cyllideb a'n Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17. Yna, bydd angen i ni eu hanfon at y Gweinidog er mwyn iddo ef eu hystyried cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar ein gwefan ar 31 Mawrth 2016. Mae'n debygol y bydd cryn dipyn o newid yn ystod 2016-17 wrth i ganlyniadau ein Hadolygiadau o Feysydd Busnes gael eu gweithredu ac wrth i ddeddfwriaeth newydd gael ei chyflwyno.

## Cefndir

1. 2016-17 yw blwyddyn olaf ein Cynllun Corfforaethol tair blynedd. Rydym yn llunio Cynllun Busnes blynyddol sy'n rhoi mwy o fanylion am ein gweithgareddau a'n hadnoddau ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Yna, mae'r Cyfarwyddiaethau yn defnyddio'r Cynllun Busnes i ddatblygu eu Cynlluniau Cyflawni sy'n cynnwys rhagor o fanylion.

2. Yng nghyfarfod y Bwrdd ar 26 Ionawr, gwnaethom egluro cynigion a fyddai'n mantoli'r gyllideb ar gyfer 2016-17 ar sail y sefyllfa a oedd yn hysbys ar y pryd. Roedd y gyllideb ar gyfer Incwm a Gwariant yn £162 miliwn. Bu i ni gytuno i ddychwelyd ym mis Mawrth gyda chynigion wedi'u diweddaru, pan fyddem wedi cael cadarnhad ynghylch y cyllid terfynol yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu ei ddarparu.

3. Yn ogystal, bu i ni gytuno i gymryd sylwadau pellach gan y Bwrdd a Llywodraeth Cymru ynghylch naratif y Cynllun Busnes. Mae'r sylwadau hynny wedi dod i law ac wedi'u cynnwys i'r graddau y mae hynny'n bosibl, ynghyd ag eitemau o'r Llythyr Cylch Gwaith (Atodiad 3). Fodd bynnag, bydd nifer o newidiadau'n digwydd yn 2016-17 (er enghraifft, argymhellion manwl yr Adolygiadau o Feysydd Busnes) na fydd modd i ni eu cynnwys yn fanwl yn y Cynllun Busnes hwn ar 31 Mawrth.

4. Bydd mesurau a thargedau meintiol ac ansoddol yn cael eu cyflwyno'n rhan o'n gwaith o adrodd ynghylch perfformiad, mewn papur ar wahân.

5. Mae'r datganiad sydd wedi'i ddiweddaru ynghylch y gyllideb wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae dogfen derfynol y Cynllun Busnes ar gyfer 2016-17 wedi'i chynnwys yn Atodiad 2.

6. Byddwn hefyd yn manteisio ar y cyfle i arwain y Bwrdd drwy'r cynigion mewn mwy o fanylder ar 16 Mawrth.

**<u>Asesiad</u>**

**Diweddariad ynghylch y sefyllfa o ran y Gyllideb ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd**

7. Dyma'r sefyllfa ddiweddaraf ynghylch cyllid Llywodraeth Cymru:

- Roedd y cais a wnaed i gronfa gyfalaf Llywodraeth Cymru, sy'n gronfa ganolog, yn aflwyddiannus. Mae rhai o'r eitemau y gwnaed cais amdanynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb.

- Roedd y cais ychwanegol am £3 miliwn a wnaed i gronfa Llywodraeth Cymru ar gyfer Cynllun Buddsoddi yn Seilwaith Cymru, a fyddai wedi golygu bod cyllideb ein Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llifogydd yn cynyddu o £16.5 miliwn i £19.5 miliwn, yn aflwyddiannus.

- Mae Llywodraeth Cymru wedi awgrymu y byddwn yn cael y cyllid ychwanegol canlynol. Cytunwyd ar y cyllid ar lefel swyddogion ond nid yw wedi'i gymeradwyo gan y Gweinidog eto.

  Cymorth Grant Refeniw nad yw'n ymwneud â Llifogydd - £8 miliwn
  Cymorth Grant Refeniw sy'n ymwneud â Llifogydd - £0.5 miliwn
  Cymorth Grant Cyfalaf nad yw'n ymwneud â Llifogydd - £2 filiwn
  Cymorth Grant Cyfalaf sy'n ymwneud â Llifogydd - £3.5 miliwn

8. Effaith net hynny a mân newidiadau eraill fydd cynyddu'r gyllideb sydd ar gael i £178.2 miliwn.

**Cynigion ynghylch y Gyllideb**

9. Yn y papur ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys diweddariad ynghylch y Gyllideb a'r Cynllun Busnes Drafft ar gyfer 2016-17, gwnaethom amlinellu ym mharagraffau 12 i 14 y pwysau, y ddeddfwriaeth nas ariennir ac ati yr oeddem yn rhagweld y byddem yn blaenoriaethu cyllid ychwanegol Llywodraeth Cymru ar eu sail.

10. Gan fod y cyllid wedi'i gadarnhau erbyn hyn, mae'r Tîm Gweithredol wedi'i flaenoriaethu fel a ganlyn:

- Caiff £3.5 miliwn ei ddyrannu ar gyfer mynd i'r afael â *P.ramorum,* er mai swm o £4.4 miliwn oedd yn y cais.

- Caiff £2.6 miliwn ei ddyrannu i'n galluogi i ymdrin ag effaith deddfwriaeth newydd megis Bil newydd yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Rheoliadau Cronfeydd Dŵr a deddfwriaeth arall.
- Caiff £1.4 miliwn ei ddyrannu i ategu'r gyllideb ar gyfer Trawsnewid TGCh er mwyn ein galluogi i ymadael yn gynt â Chytundebau Lefel Gwasanaeth â chyrff rhagflaenol Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Caiff £0.9 miliwn ei ddyrannu ar gyfer eitemau cyfalaf nad ydynt yn ymwneud â llifogydd, a oedd yn rhan o'r cais aflwyddiannus am gyllid canolog Llywodraeth Cymru.
- Caiff £3.5 miliwn ei ddyrannu ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer Llifogydd, er ein bod wedi cynnwys £4 miliwn yn wreiddiol. Mae hynny'n golygu bod ein cyllideb gyffredinol wedi gostwng o £16.5 miliwn i £16 miliwn, ond rydym yn bwriadu cario £1 filiwn ychwanegol ymlaen er mwyn i'r gyllideb fod yn £17 miliwn.
- Caiff £0.5 miliwn ei ddyrannu ar gyfer pwysau eraill y gwnaethom ofyn i Lywodraeth Cymru am gymorth ar eu cyfer.
- Caiff £1.6 miliwn ei ddyrannu ar gyfer pwysau eraill ar gyllid craidd.

11. Caiff y gyllideb agoriadol arfaethedig derfynol ei hamlinellu yn Atodiad 1. Mae'n cynnwys y cyllid ychwanegol (a esbonnir ym mharagraff 7) a chynigion y Tîm Gweithredol ynghylch sut y dylid ei ddefnyddio (paragraff 12).

12. Mae'r Cynllun Busnes wedi'i ddiwygio er mwyn adlewyrchu'r newidiadau a nodir uchod.

**Camau nesaf**

13. Bydd cyllidebau'n cael eu dyrannu'n ffurfiol i Gyfarwyddwyr drwy Lythyrau Dirprwyo erbyn diwedd mis Mawrth.

14. Bydd unrhyw newidiadau pellach i'r sefyllfa ariannol, drwy'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn neu drwy newid i'r cyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, yn cael eu cyflwyno yn ystod dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf ac adroddir wrth y Bwrdd yn eu cylch ym mis Mai.

15. Ar ôl iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd, byddwn yn anfon y Gyllideb a'r Cynllun Busnes at y Gweinidog er mwyn iddo ef eu hystyried cyn iddynt gael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar ein gwefan.

16. Byddwn yn gweithredu newidiadau yn ystod 2016-17 nad ydym wedi gallu manylu arnynt yn y Cynllun Busnes presennol, yn enwedig o ganlyniad i'r Adolygiadau o Feysydd Busnes, ac adroddir yn eu cylch ym mis Ebrill.

17. Mae'n debygol y bydd ein Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2017-22 a'i gynlluniau busnes cysylltiedig yn cael eu cyflwyno mewn fformat a fydd yn wahanol iawn i fformat y rhai a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod y Cynllun Corfforaethol tair blynedd presennol. Yn ogystal â chydymffurfio â deddfwriaeth newydd a sicrhau bod pob rhan o'r sefydliad yn canolbwyntio ar ganlyniadau, rydym yn bwriadu llunio dogfennau mwy cryno yn y dyfodol, sy'n meintioli ein targedau ac sy'n pennu cost ein gwaith yn fwy manwl, gan ddefnyddio ein gwell dealltwriaeth o'n costau a'r ffrydiau ariannu ar gyfer ein gweithgareddau.

**Argymhelliad/Argymhellion**

18. Rydym yn argymell bod y Bwrdd yn cymeradwyo Cyllideb a Chynllun Busnes 2016-17, er mwyn i ni allu eu hanfon at y Gweinidog er mwyn iddo ef eu hystyried ac er mwyn iddynt gael eu cyhoeddi erbyn yr adeg y cytunwyd arni, gan sylweddoli y bydd newidiadau yn ystod 2016-17 na ellir manylu arnynt yn y Cynllun Busnes ar hyn o bryd.

**Prif risgiau**

19. Rydym wedi nodi'r risgiau canlynol:-

- Bydd newidiadau manwl yn digwydd yn ystod y flwyddyn, na ellir eu nodi yn y Cynllun Busnes ar hyn o bryd. Fodd bynnag, gallwn roi gwybod i'n rhanddeiliaid am y newidiadau hynny drwy sianelau eraill, er enghraifft diweddariadau mwy cyffredinol ar ein gwefan.
- Bydd angen i unrhyw newidiadau o ran gwasanaeth, sy'n deillio o'r arbedion byrdymor sy'n ofynnol i fantoli'r gyllideb, gael eu rheoli'n ofalus gyda chwsmeriaid a rhanddeiliaid allanol, oherwydd mae ein henw da mewn perygl os na chaiff gostyngiadau a'u heffeithiau eu hesbonio'n ofalus.
- Rydym wedi mynd i'r afael â'r pwysau parhaus sydd arnom o safbwynt deddfwriaeth newydd a *P.ramorum*, trwy gyllid ychwanegol a geir unwaith yn unig gan Lywodraeth Cymru, heb unrhyw sicrwydd o gyllid y tu hwnt i'r flwyddyn nesaf. Mae arnom angen i'r cyllid hwn fod yn rhan o'n dyraniad sylfaenol o 2017-18 ymlaen.

**Goblygiadau ariannol**

20. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth lunio'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes, ar wahân i'r amser y mae'n ei gymryd i'r staff eu paratoi. Fodd bynnag, mae'n amlwg bod cynnwys y Gyllideb a'r Cynllun Busnes yn egluro pa adnoddau sydd ar gael ar gyfer ein gwaith yn ystod y flwyddyn nesaf.

21. Mae'n ofyniad ariannol fod y Prif Weithredwr, fel Swyddog Cyfrifyddu CNC, yn sicrhau fod y gyllideb yn cael ei mantoli ar gyfer blwyddyn ariannol newydd (2016/17).

**Asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb**

22. Mae'r Gyllideb a'r Cynllun Busnes yn destun Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb, a bydd copi drafft yn Atodiad 4.

**Mynegai i'r Atodiadau**

Atodiad 1: Datganiad Drafft ynghylch y Gyllideb ar gyfer 2016-17
Atodiad 2: Cynllun Busnes
Atodiad 3: Llythyr Cylch Gwaith Blynyddol
Atodiad 4: Aeg Cyllun Busnes